Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:

# Tŷ Cariad

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/09/2014**

## Cyd-destun

Mae’r ysgol yn gweithredu mewn cartref bach i blant a agorodd ym mis Hydref 2013. Mae ystafelloedd yr ysgol mewn tŷ sengl modern mewn lleoliad gwledig yn ne Sir Benfro. Mae’r adeilad mewn cyflwr da iawn drwyddi draw. Mae un ystafell wedi ei neilltuo fel ystafell ddosbarth bwrpasol briodol. Mae gan y tŷ ardd fawr ac ychydig o erwau o ddôl glaswellt.

Bu sawl newid i’r staff ers i’r cartref plant a’r ysgol agor. I ddechrau, roedd y perchennog/pennaeth yn cyflwyno’r addysg ei hun. O fis Ionawr, cyflogodd athro at y diben hwn. Fodd bynnag, gadawodd yr athro hwnnw yr ysgol ym mis Mai. Ymunodd athrawes lanw a chynorthwyydd cymorth dysgu â’r staff ar ddechrau mis Mehefin.

Mae gan yr athrawes lanw wybodaeth gyfyngedig am ddysgu a chyflawniad blaenorol disgyblion i lywio ei chynllunio.

Mae’r ysgol yn ei blwyddyn gyntaf yn gweithredu o hyd, felly dim ond megis dechrau datblygu pob agwedd ar ei darpariaeth ydyw.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Mae cryfderau’r ysgol fel a ganlyn:**

- mae disgyblion wedi gwneud cynnydd da o ran magu hyder ers iddynt ymuno â’r ysgol ym mis Hydref 2013. Mae eu gallu i sgwrsio’n briodol â’r staff ac ymwelwyr wedi gwella ers ymweliad diwethaf Estyn;
- yn ystod y mis diwethaf, mae’r athrawes lanw wedi helpu disgyblion i gyflawni safonau da yn eu gwaith, ar draws ystod o bynciau;
- mae’r amserlen bresennol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau allweddol a chael profiad o’r saith maes dysgu, fel sy’n ofynnol dan Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003;
- yn ddiweddar, mae disgyblion wedi dilyn cwrs sy’n cael ei gynnig gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol Sir Benfro i ddatblygu eu gwybodaeth am gefn gwlad, a chawsant Dystysgrif John Muir am eu gwaith;
- mae gan staff berthynas dda iawn â disgyblion ac â’i gilydd. Maent yn creu amgylchedd gwaith cyffyrddus. Maent yn rhoi pwyslais priodol ar ddatblygu ac atgyfnerthu medrau cyfathrebu disgyblion;
- o ystyried y wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael, mae’r athrawes lanw yn cynllunio gweithgareddau addas ac yn paratoi adnoddau’n dda. Er enghraifft, mewn mathemateg a Saesneg, caiff gwaith ei wahaniaethu’n briodol i fodloni anghenion disgyblion unigol;
- mae’r cynorthwydd cymorth dysgu yn darparu cymorth effeithiol, yn unol â chynlluniau’r athrawes;
- mae adeilad ac adnoddau’r ysgol o ansawdd arbennig o dda; ac

DRAFT AND CONFIDENTIAL

- mae'r ysgol yn datblygu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ennill cymwysterau mewn cyrsiau wedi'u hachredu.

## Meysydd i'w datblygu

**Mae meysydd i'w datblygu'r ysgol fel a ganlyn:**

- bu sawl newid i'r staff addysgu a'r staff gofal ers i'r ysgol agor ym mis Hydref 2013. Mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar barhad dysgu disgyblion;
- nid yw'r perchennog/pennaeth wedi monitro cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn ddigon da yn ystod y chwe mis diwethaf. O ganlyniad, tan yn ddiweddar, nid oedd unrhyw dystiolaeth glir o'r hyn y mae disgyblion wedi ei ddysgu na'r cynnydd a wnaed ganddynt ar draws pob pwnc;
- er bod gan yr ysgol bolisi cwricwlwm, nid yw'n ddogfen ddefnyddiol i helpu staff i gynllunio'n briodol. Mewn rhai meysydd, nid yw'r manylion yn berthnasol i waith yr ysgol;
- nid yw addysg rhyw wedi ei chynnwys yn y cwricwlwm ar hyn o bryd;
- nid yw cynllunio ar gyfer disgyblion yn rhoi digon o ystyriaeth i'r gofynion sydd wedi eu pennu yn eu datganiadau o AAA. Fodd bynnag, mae Estyn yn cydnabod mai dim ond yn ddiweddar iawn y cafodd yr ysgol un datganiad o AAA; a
- nid yw rhediad y wers yn ddigon heriol bob tro i fodloni anghenion disgyblion mwy galluog.

## Argymhellion

| | |
|---|---|
| A1 | Cymryd camau i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 |
| A2 | Rheoleiddio staffio er mwyn sicrhau nad yw newid yn amharu ar addysg disgyblion |
| A3 | Monitro cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn fwy effeithiol |
| A4 | Sicrhau bod rhediad gwersi yn bodloni anghenion disgyblion mwy galluog |
| A5 | Parhau i ddatblygu cyfleoedd i ddisgyblion ennill cymwysterau ar gyrsiau achrededig |

DRAFT AND CONFIDENTIAL

## Cynnydd wrth fynd i’r afael â’r argymhellion o’r nodyn ymweliad neu’r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1:** Sicrhau bod trefniadau diogelwch digonol ar gyfer yr adeiladau trwy wella diogelwch y drws blaen

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Erbyn hyn, mae’r drws blaen wedi ei gloi ac mae cloch i gael mynediad.

**Argymhelliad 2:** Sicrhau bod pob un o bolisïau’r ysgol wedi ei lofnodi, ei ddyddio ac yn cynnwys dyddiad adolygu i ddarparu sail ar gyfer hunanarfarnu a gwella’r ysgol

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan yr ysgol bolisïau priodol a lofnodwyd ac a ddyddiwyd ym mis Ebrill 2014.

**Argymhelliad 3:** Dylai’r perchennog roi gwybod i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei bod yn dymuno gwneud newid perthnasol i gofrestriad yr ysgol os yw’n penderfynu datblygu adeilad yr ysgol a/neu dderbyn disgyblion dydd neu gynyddu nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr

Ni aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn.

Ar hyn o bryd, nid yw’r perchennog wedi bwrw ymlaen â’i chynlluniau i ddatblygu adeilad yr ysgol.

DRAFT AND CONFIDENTIAL

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sicrhau bod polisi'r cwricwlwm yn adlewyrchu arfer yn yr ysgol yn gywir a'i fod yn cael ei roi ar waith yn effeithiol;
- sicrhau lle mae gan ddisgyblion ddatganiad, bod yr addysg sy'n cael ei darparu yn cyflawni ei gofynion;
- darparu addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd, gan gynnwys addysg rhyw; [1(2f)]
- sicrhau bod athrawon yn dangos dealltwriaeth dda o dueddfryd, anghenion a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion, ac yn ystyried y rhain wrth gynllunio gwersi; a
- datblygu fframwaith i asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr, a defnyddio gwybodaeth o'r cyfryw asesiadau i gynllunio addysgu er mwyn i ddisgyblion wneud cynnydd.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Ni arolygydd y tîm Reoliadau 3(4), 3(5) na 3(6) yn ystod yr ymweliad hwn.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn Safon 6.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

DRAFT AND CONFIDENTIAL

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- Ar hyn o bryd, nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.  I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Tŷ Cariad |
| **Rhif yr ysgol** | 668/6019 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 2 a 3 Gorffennaf 2014 |
| **Perchennog** | United Care in Wales |
| **Staff** | Ychwanegwch destun |
| **Nifer y disgyblion** | Ychwanegwch destun |
| **Darpariaeth** | Ychwanegwch destun |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | • 1 x pennaeth<br>• 1 x athrawes lanw amser llawn â SAC<br>• 1 x cynorthwyydd cymorth dysgu rhan-amser (0.8)<br>• 1 x rheolwr gofal preswyl dros dro<br>• 1 x dirprwy reolwr gofal preswyl<br>• 5 x staff gofal |
| **Nifer y disgyblion** | 2 ar y gofrestr |
| **Darpariaeth** | Mae'r ysgol wedi ei chofrestru i dderbyn hyd at 3 bachgen neu ferch rhwng 11 a 18 oed.  Darpariaeth addysg dymhorol, yn unol â thymhorau'r awdurdod lleol, i ddisgyblion mewn lleoliadau preswyl 52 wythnos. |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Disgyblion ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig (ASD) a/neu anhwylderau dysgu difrifol. |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Amherthnasol |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Ail arolygiad cofrestru: 11 a 12 Rhagfyr 2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Mehefin a Gorffennaf 2014 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodion** | Rosemary Lait AEM |
| **Arolygydd Tîm** | Michelle Gosney AEM (AT) |

DRAFT AND CONFIDENTIAL